



## Llwybrau Apelio

Mae'r daflen hon yn egluro beth y mae angen i chi ei wneud er mwyn cydymffurfio â Rhan 30 o'r Rheolau Trefniadaeth Teulu a Chyfarwyddyd Ymarfer 30A sy'n ategu'r Rhan honno.

### Pa lys yw'r llys apêl?

Y llys apêl yw'r llys y cyflwynir apêl iddo. Mae'r llwybr apelio yn dibynnu ar:

- y math o achos
- y llys y mae'r apêl yn deillio o'i benderfyniad ('y llys is')
- pwy wnaeth y penderfyniad hwnnw (e.e. barnwr rhanbarth neu farnwr cylchdaith) a'r math o benderfyniad.

Mae'r daflen hon yn ceisio darparu canllawiau cyffredinol ar y llwybrau apelio mewn achosion teulu. Nid yw'n arweiniad awdurdodol, ac ni all roi arweiniad awdurdodol. Os nad ydych yn siŵr pa lys yw'r un cywir i apelio iddo, efallai y byddech yn hoffi siarad â chyfreithiwr neu gysylltu â'r ganolfan Cyngor ar Bopeth leol.

Rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn ffeilio eich Hysbysiad Apelydd (naill ai **FP161** neu **N161**) yn y llys apêl cywir. Bydd ffurflen wahanol i'w llenwi, gan ddibynnu i ba lys yr ydych yn apelio.

## Achosion teulu

Y Barnwr a wnaeth y penderfyniad y bydd apêl yn cael ei gwneud yn ei erbyn	Apelio i
Un neu ragor o ynadon lleyg yn eistedd yn y llys teulu	Barnwr ar lefel barnwr cylchdaith yn eistedd yn y llys teulu.
Barnwr ar lefel barnwr rhanbarth yn eistedd yn y llys teulu	Barnwr ar lefel barnwr cylchdaith yn eistedd yn y llys teulu.
Barnwr rhanbarth neu Uwch Farnwr Rhanbarth yn yr Adran Deulu yn eistedd yn y llys teulu mewn achos am rwymedi ariannol	Barnwr ar lefel barnwr Uchel Lys yn eistedd yn y llys teulu
Barnwr cylchdaith neu gofiadur yn eistedd yn y llys teulu, ac eithrio lle mae'r rhes nesaf yn berthnasol	Barnwr Uchel Lys yn eistedd yn yr Uchel Lys
<p>Barnwr cylchdaith neu gofiadur yn eistedd yn y llys teulu lle bo'r apêl yn deillio o:</p> <p>(a) penderfyniad neu orchymyn mewn achos o dan:</p> <p>(i) Rhan 4 neu 5 o Ddeddf Plant 1989, neu baragraff 19(1) o Atodlen 2 i'r ddeddf honno; neu</p> <p>(ii) Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002;</p> <p>(b) penderfyniad neu orchymyn wrth ymarfer awdurdodaeth y llys mewn cysylltiad â dirmyg llys, lle bo'r penderfyniad neu'r gorchymyn hwnnw wedi'i wneud mewn achos, neu mewn cysylltiad ag achos, o fath y cyfeirir ato yn (a) uchod; neu</p> <p>(c) penderfyniad neu orchymyn a wnaethpwyd yn dilyn apêl i'r llys teulu ('ail apêl')</p>	Y Llys Apêl
Barnwr costau	Barnwr ar lefel barnwr Uchel Lys
Barnwr ar lefel barnwr Uchel Lys	Y Llys Apêl
Unrhyw farnwr arall yn eistedd yn y llys teulu na chyfeiriwyd ato uchod	Y Llys Apêl

<p>Unrhyw un o'r canlynol yn eistedd yn yr Uchel Lys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- barnwr rhanbarth yr Uchel Lys</li> <li>- dirprwy farnwr rhanbarth</li> <li>- Uwch Farnwr Rhanbarth yr Adran Deulu</li> <li>- barnwr rhanbarth yr Adran Deulu</li> <li>- barnwr costau</li> <li>- unigolyn a benodwyd i weithredu fel dirprwy i farnwr costau</li> </ul>	<p>Barnwr Uchel Lys yn eistedd yn yr Uchel Lys</p>
<p>Barnwr yr Uchel Lys yn eistedd yn yr Uchel Lys (gan gynnwys rhywun sy'n gweithredu fel barnwr o'r fath yn unol ag adran 9(1) neu (4) o Ddeddf Uwchlysoedd 1981</p>	<p>Y Llys Apêl</p>

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae angen caniatâd i apelio. Os bydd y llys apêl yn gwrthod caniatâd heb wrandawriad, gallwch wneud cais am wrandawriad llafar i'r llys hwnnw.

Os bydd y llys apêl, mewn gwrandawriad, yn gwrthod rhoi caniatâd i apelio, nid oes hawl bellach i apelio.

## Caniatâd i Apelio

Yn gyffredinol, mae angen caniatâd gan y llys cyn y gellir gwrandao apêl mewn achos teulu. Os nad ydych wedi cael caniatâd gan y llys a wnaeth y penderfyniad yr ydych eisiau apelio yn ei erbyn, neu os yw'r llys hwnnw wedi gwrthod rhoi caniatâd, rhaid i chi wneud cais am ganiatâd i apelio yn eich hysbysiad apelydd.

Ni fydd y llys yn rhoi caniatâd i chi apelio oni bai ei fod yn credu bod gan eich apêl obaith gwirioneddol o lwyddo neu bod rheswm da arall pam y dylai'r apêl gael ei chlywed.

Nid oes angen i chi gael caniatâd i apelio os yw'r apêl yn erbyn:

- gorchymyn traddodi
- gwrthod caniatáu habeas corpus ar gyfer rhyddhau mewn cysylltiad â phlentyn dan oed
- gorchymyn llety diogel o dan adran 25 o Ddeddf Plant 1989 neu adran 119 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

- penderfyniad a wnaethpwyd gan un neu ragor o ynadon lleyg yn eistedd yn y llys teulu

Lle bo barnwr cylchdaith sy'n eistedd yn y llys teulu yn gwrthod cais am ganiatâd i apelio sy'n cael ei wneud gan farnwr rhanbarth, ond yn gwneud gorchymyn ar wahân (e.e. am gostau) yng ngwrandawriad y cais am ganiatâd i apelio, gellir apelio yn erbyn y gorchymyn ar wahân hwnnw. Mae angen caniatâd i apelio ar gyfer apêl o'r fath.

## Ailagor penderfyniad terfynol unrhyw Apêl

Ni fydd Adran Deulu'r Uchel Lys yn ailagor penderfyniad terfynol unrhyw apêl oni bai:

- fod angen gwneud hynny er mwyn osgoi anghyfiawnder gwirioneddol;
- fod yr amgylchiadau'n eithriadol ac yn golygu ei bod yn briodol ailagor yr apêl; ac
- nad oes rhwymedi effeithiol arall. (Rheol 30.14 yn y Rheolau Trefniadaeth Teulu)

## Ail Apêl

Dim ond mewn achosion eithriadol y mae hawl i ail apêl yn y Llys Apêl, a rhaid pasio prawf caletach. Mewn ail apêl, ni chewch wneud apêl i'r Llys Apêl oni bai fod y Llys hwnnw'n credu y byddai'r apêl yn codi pwynt pwysig yn ymwneud ag egwyddor neu ymarfer neu bod rheswm da arall dros ei chlywed yn y Llys Apêl.

Meddylwch yn ofalus, cyn talu ffi'r llys, a fyddwch yn gallu bodloni'r prawf caletach am ganiatâd ac a ydych yn dymuno i'ch cais fynd yn ei flaen. Ni fydd y ffi'n cael ei had-dalu os bydd eich cais yn aflwyddiannus.

**Sylwer:** Bydd gennych hawl i ail apêl os bydd y llys a fu'n ymdrin ag apêl gyntaf wedi gwrandao apêl lawn o orchymyn cynharach, ond nid os yw wedi gwrthod rhoi caniatâd i chi apelio o lys is mewn gwrandawriad llafar (gweler yr adran isod).

## Y llys apêl yn gwrthod rhoi caniatâd i apelio

Os bydd llys apêl yn gwrthod rhoi caniatâd i apelio iddo ef ei hun mewn gwrandawriad llafar, ni chaniateir apêl bellach yn erbyn y penderfyniad hwnnw i unrhyw lys (adran 54(4) Deddf Mynediad at Gyfiawnder 1999).

## Llysoedd Apêl

Os yr Uchel Lys yw'r llys apêl rhaid ffeilio'r hysbysiad apelydd (**FP161**) yn Swyddfa Apeliadau'r Adran Deulu: Family Division Appeals Office, Floor 1M, Queen's Building, Royal Courts of Justice, Strand, Llundain, WC2A 2LL. DX 44450 Strand

Os y Llys Apêl yw'r llys apêl, rhaid ffeilio'r hysbysiad apelydd **(N161)** yng Nghofrestrfa'r Swyddfa Apeliadau Sifil: Civil Appeals Office Registry, Room E307, 3rd Floor East Block, Royal Courts of Justice, Strand, Llundain, WC2A 2LL. DX 44450 Strand

Os y llys teulu yw'r llys apêl, cyn anfon yr hysbysiad apelydd **(N161)**, edrychwch am fanylion eich llys teulu agosaf yn <https://courtribunalfinder.service.gov.uk>

Gellir trosglwyddo apêl i lys arall er mwyn gwrando'r apêl. Gellir trosglwyddo'r apêl naill ai ar gais parti yn yr achos neu drwy orchymyn gan y llys. Os bydd eich achos yn cael ei drosglwyddo, rhoddir manylion y llys y mae eich achos yn cael ei symud iddo yn y gorchymyn.